LLAIS LLANEDI
Cyngor Cymuned Llanedi
Llanedi Community Council

Hwyl yr ŴYL

Daeth eto'r adeg o'r flwyddyn i ni i roi o'r neilltu ein pryderon a'n gofidiau a dechrau mwynhau dathliadau'r Nadolig. Fel yn y blynyddoedd a fu, bydd Cyngor y Gymuned yn trefnu nifer o ddigwyddiadau arbennig i'n denu i ysbryd yrWyl. Gwelir coed a goleuadau Nadolig ar Sgwâr Yr Hendy, yn Y Fforest, Llanedi a Thycroes.

Yn Nhycroes, mae'r Cyngor mewn cydweithrediad â Chymorth Lleol Tycroes a'r Ysgol Gynradd, wedi trefnu i Siôn Corn gynnau'r goleuadau Nadolig nos Wener, 26ain Tachwedd am 7:00 y.h..

Ar y cyd gyda Phwyllgor Carnifal Yr Hendy, rydym hefyd wedi trefnu i Siôn Corn alw yn Sgwâr yr Hendy am 6:00 nos Wener, 3ydd Rhagfyr. Yma eto, ef fydd yn cynnau'r goleuadau Nadolig.

Bydd y goleuadau Nadolig ar gyffordd Heol-y-Plas a Heol Llanedi, Y Fforest, yn cael eu rhoi ymlaen am 6:20 y.h. ac ym mhentref Llanedi am 6:45 yr un noson, Rhagfyr y 3ydd.

Tachwedd 26ain - 7:00y.h.:
Siôn Corn yn cynnau'r goleuadau - Tycroes

Rhagfyr 3ydd - 6:00 y.h.: Siôn Corn yn cynnau'r goleuadau - Sgwâr yr Hendy

Rhagfyr 3ydd - 6.20 y.h.:
Cynnau'r goleuadau Nadolig, Y Fforest

Rhagfyr 3ydd - 6.45 y.h.:
Cynnau'r goleuadau Nadolig, Pentref Llanedi

Balchder yn ein hamgylchedd a'n cymuned

Beth sydd wedi digwydd i'n balchder yn ein hamgylchedd a'n cymuned? Er gwaetha'r cyfleusterau a ddarparwyd ar ein cyfer i waredu sbwriel ac er y casgliadau rheolaidd o sbwriel o'n cartrefi, mae ambell unigolyn yn mynnu difetha'n hamgylchedd.

Pa mor aml y gwelwch ein cefn gwlad, ein gwrychoedd a'n hafonydd wedi'u difetha gan rwbel adeiladu, hen bramiau, matresi, a bagiau plastig du llawn dop? O fewn dyddiau, mae'r bagiau wedi'u rhwygo gan adar a chreaduriaid gwyllt, a'r cynnwys ffiaidd wedi'i ledaenu ar draws y lle.

Anogaf bawb i wrthsefyll y fath arfer ofnadwy. Os gwêl unrhyw un y fath ymddygiad gwrthgymdeithasol, dylid cysylltu â'r Heddlu ar unwaith.

Neuadd y Pentref, Tycroes

Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen o ymestyn y Neuadd i ddarparu cyfleusterau aml-ddefnydd a fydd yn galluogi gwell defnydd o'r adnodd gwerthfawr hwn gan fwy o grwpiau cymunedol. Gwireddwyd y cynllun trwy gymorth grant o £40,000 o Gyngor Cymuned Llanedi a £25,000 o gronfa cydweithredu Cyngor Sir Gâr.

Mae Pwyllgor Rheoli'r Neuadd yn ceisio sicrhau grantiau pellach i wella'r gegin a chyfleusterau tai bach.

Gwobr Ieuenctid Terry Price

Yn rhifyn diwethaf Llais Llanedi lansiwyd ein gwobr ieuenctid newydd a enwir ar ôl y chwaraewr amryddawn ac eiconig lleol Terry Price (1945 - 1993).

Bwriad y wobr yw cydnabod a dathlu llwyddiannau pobl ifainc o dan 25 oed sy'n byw o fewn ardal y Cyngor - Yr Hendy, Tycroes, Y Fforest a Llanedi.

Dim Ar Werth

Mae adran y priffyrdd Cyngor Sir Gâr yn gweithio ar y cyd gyda'r adran Safonau Masnach i atal yr arfer sy'n datblygu'n un gyffredin o osod cerbydau sydd ar werth ar briffyrdd cyhoeddus. Gwelir hyn yn amlwg yn encilfeydd Talyclun a Sgwâr y Ceffyl Du, Yr Hendy.

Nid oes gan y gwerthwyr arfaethedig hyn unrhyw barch tuag at hawliau gyrwyr, a fyddai efallai'n dymuno aros am ennyd, neu efallai a fyddai angen symud i mewn i'r encilfa ar frys i osgoi gwrthdrawiad gyda cherbyd arall.

Soniodd un gyrrwr wrthym yn ddiweddar iddo osgoi damwain felly drwy drwch blewyn ar waelod Heol Y Fforest ble mae'r gyffordd gyda Heol Iscoed yn berygl adnabyddus. Ni fwriadwyd erioed i encilfa gael ei defnyddio fel man i werthu ceir.

Gofynnwn i chi gysylltu â'r Adran Priffyrdd neu'r Asiantaeth Safonau Masnach os gwelwch gerbydau **AR WERTH** wedi'u parcio mewn unrhyw encilfa er mwyn sicrhau diogelwch ar ein ffyrdd.

News from our Primary Schools

Ysgol Yr Hendy

A coffee morning was held at the school on Thursday, October 21 to celebrate the harvest. The children gave thanks for God's gifts in words and song.

The children had collected vegetables and fruits and these were shared between the three care homes in the village - Arlangwili, Llwyngwern and Llys Gwyn. The children entertained the residents in Arlangwili on Tuesday, 19th of October.

Ysgol Llanedi

Our Christmas concert will take place in St Edith's Church, Llanedi on December 7th -time to be advised.

We were thrilled when Jack Speed, Year 4, came sixth in the Schools Cross Country championships. Our recently established Urdd club is proving to be a popular after-school activity with children participating in cooking, painting arts and crafts. Since the start of term pupils have achieved one Healthy Schools Leaf Award and two Eco-schools Bronze Awards. ***Congratulations to the pup[ils who worked so hard to gain these accolades.***

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Cyngor Chwaraeon Cymru

Ni Yw'r Pencampwyr

Yn y rhifyn hwn rhown deyrnged i dri pherson lleol sydd wedi cyrraedd y brig yn eu meysydd arbenigol.

Robert Croft

Bu 2010 yn flwyddyn arbennig iawn i Robert, gyda llwyddiant arall eto yn ei yrfa ddisglair. Ef yw'r cricedwr cyntaf ers 1972 a dim ond y nawfed ers diwedd yr ail ryfel byd, i sgorio 10,000 o rediadau a chymryd 1,000 o wicedi dros un sir.

Yn Sain Helen yn yr Haf pan syrthiodd ei 1,000ed wiced, sef un Wayne White, Swydd Gaerlyr, daeth dau o gyn-chwaraewyr Morgannwg i'r maes gyda gwydraid o siampên iddo. Yn anffodus, daeth i arllwys y glaw yn fuan wedi hyn a rhwystrwyd y chwarae am ddwy awr ! Ond crëwyd hanes yn y lle ble'r arferai Robert fynd yn blentyn i wylio Morgannwg yn chwarae. Mewn modd diymhongar, nodweddiadol ohono, dywedodd nad hwn oedd y diwedd iddo a byddai'n parhau i chwarae mor eiddgar ag erioed.

Llongyfarchiadau Robert!

Non Evans

Llongyfarchiadau i'r chwaraewraig leol, eithriadol, Non Evans, a gynrychiolodd Cymru yn ddiweddar mewn reslo yng Ngemau'r Gymanwlad yn Delhi..

Nid peth newydd iddi oedd cystadlu ar y lefel hon, gan ei bod wedi cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad bedair gwaith cyn eleni. Enillodd medalau arian mewn jiwdo ym 1994 a 1998 a daeth yn bedwaredd yn 2002. Yn yr un Gemau yn 2002, daeth yn chweched mewn cystadleuaeth codi pwysau. Mae gan Non yr anrhydedd unigryw o fod yr unig ferch i gystadlu mewn tri math gwahanol o chwaraeon, dau ohonynt yn yr un gemau.

Mae Non hefyd wedi torri pob record fel chwaraewraig rygbi. Hyd yn hyn, mae wedi cynrychioli Cymru mewn 87 gem ryngwladol, gan sgorio 64 cais. Wrth ychwanegu hyn at y ciciau cosb a'r trosiadau llwyddiannus ganddi, mae ei chyfanswm pwyntiau yn ei gwneud hi'r sgoriwr pwyntiau uchaf mewn rygbi rhyngwladol i ferched

Fe'i cyfarchwn ni hi am ei gorchestion rhyfeddol a dymunwn bob llwyddiant iddi at y dyfodol.

Alaw Beynon Thomas

Mae Alaw yn parhau i fod yn eithriadol o brysur a llwyddiannus yn ei gyrfa ym myd athletau. Ym mis Ionawr, cynrychiolodd Gymru fel aelod o'r tîm dan 23 yn y gystadleuaeth traws gwlad ryngwladol Geltaidd yn Antrim, Yr Iwerddon ac o fewn ychydig ddyddiau enillodd y wobr gyntaf yn y 3000m ym mhencampwriaeth dan do oedolion Cymru yng Nghaerdydd.

Ym mis Mawrth bu'n cystadlu dan 20 oed yng nghystadleuaeth traws gwlad ryngwladol gwledydd Prydain yn Mansfield ac ym mis Mehefin daeth yn gyntaf yn y 5000m ym mhencampwriaeth oedolion Cymru. Cynrychiolodd Gymru yn y 5K yng nghystadleuaeth gwledydd Prydain yn Blackburn ac ychydig wythnosau yn ddiweddarach enillodd y 5K dan 23 ym mhencampwriaeth Cymru yn rhedeg ar hyd y ffyrdd, a daeth yn ail yn yr un ras i oedolion..

Rai wythnosau nol, cynrychiolodd ei gwlad eto yn ras mynydd rhyngwladol gwledydd Prydain yn Aonach Mor, Yr Alban. Mae ymroddiad ac ymrwymiad Alaw i'w hathletau yn eithriadol ac mae'n amlwg yn athletwraig ifanc gyda dyfodol disglair.

Dymunwn yn dda iddi yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Cŵn yn Baeddu

Mae hon yn broblem ddifrifol ar draws ardal Cyngor y Gymuned. Ar gaeau chwarae, llwybrau cerdded, palmentydd neu barciau, mae baw ci yn risg wirioneddol i iechyd ac yn niwsans sy'n gwbl annerbyniol.

Mae methu â chodi baw a adewir gan gi anwes mewn man cyhoeddus yn drosedd a all arwain at y perchennog yn cael cosb benodol o £80 gan un o Wardeniaid Cŵn y Cyngor Sir, sydd bellach yn crwydro o gwmpas yr ardal yn rheolaidd. Gellid hefyd cyfeirio'r drosedd at Lys Ynadon ble mae dirwy o hyd at £1000. Yn ddiweddar cafodd un o drigolion Gwm Gwendraeth ddirwy o £400 gan ynadon am iddo adael i'w gi faeddu ar lwybr cyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn annog unrhyw un sydd wedi gweld ci yn baeddu i ddweud wrth ei Gynghorydd Sirol lleol a fydd yn mynd ar ôl y mater.

Blodau Hardd

Gobeithio i chi fwynhau'r arddangosfeydd o flodau a ddarparwyd ar draws y pedwar pentref yn ystod yr Haf. Yn eu lle, rydym bellach wedi plannu planhigion a fydd yn blodeuo yn y Gaeaf a'r Gwanwyn gan obeithio y bydd y rhain yn rhoi ychydig o liw a chodi'n calon yn y misoedd tywyll, oer sydd i ddod.

Eich cyngor - Ar lien

Rydych nawr yn gallu dilyn materion y Cyngor trwy ymweld â'n gwefan: **www.cyngorllanedicouncil.org**

Mae'r wefan yn hollol ddwyieithog ac yn eich galluogi i ddarllen cofnodion ein cyfarfodydd, ein polisïau a manylion am sut i gysylltu â chynghorwyr neu swyddogion yn ogystal â newyddion a gwybodaeth gyffredinol.

Diogelwch ar ein Ffyrdd -*Tycroes a Llanedi*

Mae'r lefel o drafnidiaeth sydd yn ein hardal ni ymhlith yr uchaf yn Sir Gâr. Mae Cyngor Cymuned Llanedi yn gofidio'n fawr am ddiogelwch ar ein ffyrdd a bydd yn parhau i bwyso ar y Cyngor Sir ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru i fynd i'r afael â'r broblem.

Ein gofid mwyaf yw cyflymdra gormodol rhai gyrwyr. Nid cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw diogelwch ar y ffyrdd. Fodd bynnag, cymaint yw'r gofid am y broblem hon fel bod y Cyngor Cymuned ar y cyd gyda'r Cyngor Sir wedi penderfynu cyllido camau arafu traffig mewn rhai o'r mannau mwyaf peryglus. Mae'r Cyngor Cymuned wedi cyflwyno rhaglen dreigl o fesurau diogelwch ar y ffyrdd yn cynnwys y ddau arwydd rhybudd sy'n gweithredu mewn ymateb i gyflymder cerbyd ar Heol Tycroes.

Mae'r rhan o'r heol ble y lleolir y rhain yn beryglus iawn, gan fod y ffordd yn culhau a does dim palmentydd. Ymhen amser mae damwain ddifrifol yn anochel. Mae wedi dod o fewn trwch blewyn o ddigwydd eisoes. Mae eich Cyngor yn gryf ei gefnogaeth i'r trigolion lleol sy'n galw ar y Cyngor Sir i ddarparu palmant i gerddwyr ac i ledaenu'r ffordd. Ar ben hyn, mae'r nifer o gerbydau trwm sy'n defnyddio'r heol wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae eich cyngor yn credu y dylid cyflwyno mesurau i gyfyngu ar y cerbydau hyn twy, er enghraifft, osod cyfyngiad pwysau ar y ffordd.

Mae pryderon am gyflymder cerbydau ar hyd ffyrdd eraill, megis ar Heol Penygarn, ond y pryder mwyaf yw prifffordd yr A483 sy'n rhedeg trwy'r pentref (Heol Pontarddulais a Heol Rhydaman). Mae'r lefel o drafnidiaeth sy'n defnyddio'r briffordd wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r ffordd o Gyffordd 49 yr M4 - Pont Abraham - yn un gyflym. Er y newidiadau diweddar i gyfyngu cyflymder ar Coopers Straight, mae trafnidiaeth yn dal i deithio'n rhy gyflym ar y tyle wrth yrru i mewn i Dycroes.

Lleolir Ysgol Gynradd Tycroes ar yr heol brysur hon ac ni chafwyd ymateb i'n ceisiadau mynych i Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru am groesfan cerddwyr. Dylai diogelwch ein plant fod o'r pwys mwyaf. Mae eich Cyngor Cymuned wedi ysgrifennu at Gyngor Cynulliad Cymru am y problemau hyn ac yn disgwyl ateb.

Mae trigolion Llanedi hefyd yn gofidio'n fawr am gyflymder trafnidiaeth sy'n gyrru trwy'r pentref. Hoffai'r trigolion weld camera cyflymder parhaol yn cael ei osod yn ganolog, ond os na fyddai hyn yn bosib, yna dylid cyflwyno cyfyngiad cyflymder , gyda'r cyfyngiad o 40m.y.a. yn gostwng i 30 a hefyd y cyfyngiad o 30 i 20 m.y.a.. Lleolir yr Ysgol Gynradd ar y brif heol, gyda'r man parcio ar ochr arall yr heol. Dim ond mater o amser yw hi cyn i rywun gael ei ladd neu niwed mawr.

Ni fyddwn yn llaesu dwylo hyd nes i ni ddatrys y problemau hyn.